NODYN BRIFFIO AR YR ECONOMI YMWELD YNG NGWYNEDD AC ERYRI

Rhif 2

Mawrth 2022

© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

1. Cefndir

Dyma'r ail nodyn briffio sydd wedi ei baratoi i roi gwybodaeth ar ddatblygu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035.

Mae'r nodyn briffio yma'n rhoi gwybodaeth am waith Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri wrth ddatblygu'r Cynllun newydd gyda'n partneriaid.

Mae gwybodaeth cefndirol pellach ar gael yn y bwletin cyntaf.

2. Lle rydym wedi cyrraedd?

Ers 2018 mae'r Cyngor a'r Parc Cenedlaethol wedi bod yn adolygu ein blaenoriaethau ar gyfer cefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal ac wedi cynnal nifer o gyfarfodydd, gweithdai, digwyddiadau a holiaduron efo amrywiaeth eang o gynrychiolwyr.

Yn ystod y 6 mis diwethaf mae 5 digwyddiad wedi eu cynnal trwy Zoom i drafod yr economi ymweld yng Ngwynedd ac Eryri. Mae'r rhain wedi:

Cyrraedd dros
250
o gynrychiolwyr

Ysgogi dros
1,500
o sylwadau gan fynychwyr

Dros 4,200
o fusnesau wedi derbyn gwybodaeth a gwahoddiad i gyfrannu yn y digwyddiadau trwy Fwletin Busnes Cyngor Gwynedd

Cyrraedd dros
100
o sefydliadau cyhoeddus, cyrff neu fusnesau unigol



Ymgysylltu efo
14
ardal o Wynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri

Yn dilyn derbyn adborth o'r gweithdai hyn, mae Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri wedi dechrau adeiladu ar yr Egwyddorion Economi Ymweld Cynaliadwy a datblygu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri.

Mae'r prif negeseuon o adborth o'r gweithdai i'w gweld yn nodyn briffio 1 ac mae'r rhain yn llywio datblygiad y Cynllun newydd.

3. Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035

Y Cynllun yma fydd yn llywio ein blaenoriaethau a'n polisïau yn y maes Economi Ymweld hyd at 2035.

Bydd y Cynllun yn ran o Fframwaith Adfywio Cyngor Gwynedd – Ardal Ni, a bydd hefyd yn dylanwadu ar flaenoriaethau buddsoddi Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Ar hyn o bryd, rydym yn meddwl y bydd y Cynllun yn cynnwys y strwythur canlynol:

- ➜ Rhagair
- ➜ Yr hyn rydym am ei weld – gosod allan ein gweledigaeth a'r egwyddorion newydd
- ➜ Yr achos dros weithredu – tystiolaeth ac ymchwil i gefnogi gweithredu'n wahanol
- ➜ Cyd-destun Strategol ac Arfer Dda – strategaethau cenedlaethol a lleol ac arfer da lleol a rhyngwladol
- ➜ Datblygu'r Cynllun ac Ymgynghori – cefndir ar y gweithdai a'r prif negeseuon
- ➜ Sefydlu a Gweithredu Egwyddorion Gwynedd ac Eryri – trefniadau ar gyfer sefydlu a gweithredu i'r dyfodol
- ➜ Mesur llwyddiant – amlygu'r dulliau ymchwil a mesur effaith newydd
- ➜ Manylion Cyswllt a Gwybodaeth Bellach
- ➜ Atodiadau – tystiolaeth a gwybodaeth bellach am y gwaith o ddatblygu'r Cynllun

4. Strwythur gweithredu'r Cynllun yn y dyfodol

Bwriedir mabwysiadu strwythur ffurfiol i weithredu'r Cynllun newydd yn y dyfodol. Ni fydd y Cynllun yn medru cael ei wireddu gan Gyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri ar ben eu hunain – bydd angen iddo gael ei weithredu **mewn partneriaeth.**

Mae'r strwythur isod yn gosod allan ein meddylfryd gweithredu ar hyn o bryd:



Bydd y Cynllun hefyd yn ysgogi'r partneriaid i:

- ➜ Ddatblygu Cynllun Gweithredu wedi' flaenoriaethu;
- ➜ Adolygu strwythurau fel eu bod yn cyd-fynd a'r weledigaeth newydd ac adnabod unrhyw anghenion adnoddau newydd;
- ➜ Blaenoriaethu gweithgareddau er mwyn targedu cronfeydd ariannu;
- ➜ Prif-ffrydio'r Cynllun i, er enghraifft, bolisïau cynllunio neu fuddsoddiadau'r Cyngor a'r Parc ayb;
- ➜ Datblygu Partneriaeth newydd.

5. Oes yna weithredu'n digwydd yn barod?

Er nad ydi'r Cynllun wedi ei gwblhau'n llawn, mae eisoes yn cael effaith ar ein gweithgareddau a'n blaenoriaethau. Er atgoffa, dyma ein gweledigaeth a'r egwyddorion:

"Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri"

1. **Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth**
2. **Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd**
3. **Sicrhau bod cymunedau Gwynedd ac Eryri'n cael mwy o fantais nac anfantais**

Mae is-egwyddorion hefyd wedi eu datblygu i lywio blaenoriaethau'r dyfodol:

Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth

- ➜ Economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau gyda phwyslais ar falchder bro
- ➜ Economi ymweld sy'n arweinydd mewn Treftadaeth, Iaith, Diwylliant ac Awyr Agored

Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd

- ➜ Economi ymweld sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau'r economi ymweld ar ein hamgylchedd heddiw ac i'r dyfodol
- ➜ Economi ymweld sy'n arwain mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel.

Sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd yn fwy nac unrhyw anfanteision

- ➜ Economi ymweld sy'n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau'n cyfrannu at lesiant y gymuned trwy'r flwyddyn
- ➜ Economi ymweld sy'n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy'n cynnig cyfleon cyflogaeth o ansawdd i bobl leol trwy'r flwyddyn
- ➜ Economi ymweld sy'n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol

"Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri"

"A visitor economy for the benefit and wellbeing of the people, environment, language and culture of Gwynedd and Eryri"

Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Iaith, Diwylliant a Threftadaeth Celebrate, Respect and Protect our Language, Culture and Heritage	Cynnal a Pharchu ein Amgylchedd Maintain and Respect our Environment	Sicrhau bod manteision i gymunedau yn fwy nac anfanteision Ensure advantages to communities outweigh any disadvantages

Ar gyfer 2022 byddwn yn gweithredu ar y canlynol sy'n cyd-fynd a'n gweledigaeth newydd:

Gweithgaredd / Prosiect	Iaith, Diwylliant a threftadaeth	Amgylchedd Cynaliadwy	Mantais i Gymunedau
Aros-fan: peilota rhwydwaith o 'aires' yng Ngwynedd	✓	✓	✓
Cyflogi Staff yng nghynt	✓	✓	✓
Gorfodaeth parcio a theithio cynaliadwy		✓	✓
Timau Tacluso Ardal Ni i gadw cymunedau'n lân		✓	✓
Prosiectau Safle Treftadaeth Byd Llechi Cymru	✓	✓	✓
Cofrestr digwyddiadau Llanberis a'r Wyddfa	✓	✓	✓
Cynllun Llysgenhadon Gwynedd ac Eryri	✓	✓	✓
Eryri di-blastig	✓	✓	✓

6. I pa gyfeiriad allai'r Cynllun Gweithredu fynd i'r dyfodol?

Yn dilyn y sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori, amlygwyd y meysydd canlynol fel rhai blaenoriaethau i'w hystyried yn y dyfodol:

Gweithgaredd / Prosiect	Iaith, Diwylliant a threftadaeth	Amgylchedd Cynaliadwy	Mantais i Gymunedau
Gefeillio Atyniadau a Chymunedau	✓	✓	✓
Hyrwyddo rhinweddau arbennig a naws am le	✓	✓	✓
Hyrwyddo i'r farchnad ddomestig yng Nghymru	✓	✓	✓
Cynllun Trafnidiaeth Cynaliadwy Eryri	✓	✓	✓
Gwynedd ac Eryri di-blastig (+ ffynhonnau dwr)	✓	✓	✓
Rheolaeth ail-gartrefi	✓	✓	✓
Ardoll twristiaeth	✓	✓	✓
Cysylltedd band eang a wi-fi	✓	✓	✓
Hyrwyddo sgiliau a gyrfa yn y sector	✓	✓	✓
Cadwyni Cyflenwi Lleol	✓	✓	✓
Targedu Marchnadoedd Rhyngwladol	✓		✓
Marchnata a Chyfathrebu Arloesol	✓	✓	✓
Annog Llety wedi' Wasanaethu	✓	✓	✓

Ar hyn o'r bryd mae Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri wrthi'n craffu cyfleoedd er mwyn ariannu'r blaenoriaethau, yn datblygu adnoddau cyfathrebu i gefnogi'r gwaith a hefyd wrthi'n paratoi asedau egwyddorion ymweld cynaliadwy i gefnogi busnesau a'n cymunedau.

7. Grŵp Tasg Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri

Er mwyn parhau i ddatblygu'r Cynllun mewn partneriaeth, rydym yn awyddus i sefydlu Grŵp Tasg bychan i'n cynorthwyo i:

- ➜ Roi barn a llywio datblygiad y Cynllun Strategol drafft a'i fesuryddion
- ➜ Adnabod blaenoriaethau gweithredu drafft
- ➜ Roi barn ar sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri 2035

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn ran o'r Grŵp Tasg neu eisiau mwy o wybodaeth am y Cylch Gorchwyl, cysylltwch â ni.

Yn benodol rydym yn edrych am gynrychiolwyr o'r meysydd canlynol:

- ➜ Cynghorau Cymuned a phartneriaethau cymunedol
- ➜ Cyrff sy'n gweithio yn y maes amgylcheddol, iaith a diwylliant
- ➜ Busnesau neu gyrff sy'n cynrychioli busnesau lleol

8. Amserlen

Dyma'n hamserlen ar hyn o bryd:

Ebrill 2022	**Sefydlu Grŵp Tasg**
Mai 2022	**Cytuno ar ddrafft Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy yn y Grŵp Tasg**
Mehefin 2022	**Cytuno ar Gynllun Gweithredu drafft yn y Grŵp Tasg**
Medi 2022	**Sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri a chyflwyno'r Cynlluniau er cefnogaeth**
Hydref 2022	**Cymeradwyo'r Cynlluniau gan Cabinet Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
Tachwedd 2022	**Lansio'r Cynlluniau'n swyddogol**

9. Manylion Cyswllt a Gwybodaeth Bellach

Mae gwybodaeth bellach ar gael yma:

twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

Gwynedd and Eryri Sustainable Visitor Economy 2035 | Visit Snowdonia

Fydd tudalen ar wefan newydd y Parc Cenedlaethol yn dod yn fuan, ond yn y cyf amser allwch weld gwybodaeth fel rhan o'n Cynllun Llysgenhadon yma:
www.ambassador.wales/cy/llysgennad-eryri/